Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llanllyfni

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n meithrin gwerthoedd Cymreictod, cwrteisi a pharch yn llwyddiannus, gan gefnogi disgyblion i gyflawni'n dda. Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad clir a doeth, gan werthfawrogi cyfraniad pawb tuag at ddarparu addysg gyflawn i'r disgyblion. Mae staff yn ymroi i gynnal safonau uchel o ofal a lles mewn amgylchedd dysgu cartrefol a chefnogol.

Mae staff yn arddel yr iaith Gymraeg yn fwriadus sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau llafar disgyblion o oedran cynnar. Mae cydweithio effeithiol rhwng staff yn arwain at gynllunio profiadau dysgu a chwarae ysgogol sy'n cefnogi datblygiad lles ac addysgol disgyblion yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u cam datblygu. Maent yn datblygu medrau llythrennedd Cymraeg yn fedrus, gan gyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth a mynegi eu barn yn glir. Er hyn, mae'r cyfleoedd bwriadus mae athrawon yn eu darparu i gefnogi disgyblion i ddatblygu a chymhwyso eu medrau ysgrifennu Saesneg yn gyfyngedig. Mae medrau mathemateg a digidol disgyblion yn datblygu'n briodol.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn fedrus wrth gymryd rhan mewn prosiectau cydweithredol, gan gyfrannu syniadau ac adeiladu ar waith ei gilydd yn hyderus. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac i gydweithio i ddatrys heriau dysgu drwy themâu addas. Nid yw'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflwyno gan staff yn ddigon heriol bob amser i ddiwallu anghenion dysgu pob disgybl yn llawn.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd arweinwyr yn drylwyr. Mae'r llywodraethwyr yn darparu cymorth pwrpasol i'r pennaeth a'r staff, gan ddangos ymwybyddiaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a darparu cydbwysedd priodol o gymorth a her.

Mae rhieni'r ysgol yn falch fod eu plant yn mynychu ysgol ofalgar sy'n chwarae rhan ganolog ym mywyd y gymuned leol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella**

A1 Ehangu'r cyfleoedd bwriadus i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion yn Saesneg

A2 Darparu gweithgareddau sy'n herio dysgu pob disgybl i gyflawni'n llawn

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r .

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/12/2025